# Taliadau a ffioedd

# Taliadau a ffioedd

Rhaid i bob sefydliad sy'n cyflwyno cais naill ai am enw parth newydd, neu addasiad, ym mharthau .llyw.cymru neu .gov.wales feddu ar Gyfrif Aelodaeth Cofrestrydd a Gymeradwywyd gyda Jisc oni bai eu bod yn gysylltiedig â rhwydwaith Jisc. Ni chodir tâl ar sefydliadau sydd â Chyfrif Aelodaeth Cofrestrydd a Gymeradwywyd. Fodd bynnag, yn gyffredinol mae'r cyfleuster hwn ond ar gael i sefydliadau sy'n rhagweld y byddant yn cyflwyno nifer o geisiadau am enwau parth drwy Jisc.

## Cwsmeriaid Jisc

### Ffïoedd Geisiadau am Enw Newydd

Caiff cwsmeriaid Jisc gofrestru eu henw parth cyntaf ym mharthau .llyw.cymru neu .gov.wales am ddim. Os bydd angen unrhyw enw parth ychwanegol, bydd y tâl safonol o £100 ynghyd â TAW (ar y gyfradd gyfredol) yn gymwys. Fodd bynnag, ni chodir tâl am unrhyw waith cynnal parhaus, cyn belled â'u bod yn parhau'n gysylltiedig â Rhwydwaith Jisc. Os bydd angen enwau parth ychwanegol o dan unrhyw barth .llyw.cymru neu .gov.wales arall, yna'r tâl a godir yw £100 ynghyd â TAW (ar y gyfradd gyfredol) y flwyddyn. Ni fydd Jisc yn cofrestru enw parth a weinyddir y tu allan i'r DU.

### Ffïoedd am Gynnal/Addasu

Ni chodir tâl ar gwsmeriaid Jisc am gynnal eu cofrestriadau .llyw.cymru neu .gov.wales yn y System Enwi Parthau, cyn belled â'u bod yn parhau'n gysylltiedig â Rhwydwaith Jisc. Ni chodir tâl arnynt chwaith am unrhyw addasiadau i'w cofnodion Systemau Enwi Parthau, cyn belled â bod y newidiadau yn cadw'r enw parth o fewn Rhwydwaith Jisc.

## Cofrestriadau Masnachol

### Ffïoedd a godir am Geisiadau am Enw Newydd:

Y tâl a godir am greu enw parth newydd yw £100 yngh?d â TAW (ar y gyfradd gyfredol). Mae hyn yn cynnwys y tâl a godir am waith cynnal yn y ddwy flynedd gyntaf, sy'n cynnwys pob newid rhesymol i ddirprwyo'r parth (zone) sy'n gysylltiedig â'r enw. Yna bydd tâl o £50 yngh?d â TAW (ar y gyfradd gyfredol) am waith cynnal yn dod i rym ddwy flynedd i'r dyddiad y cafodd yr enw ei dderbyn gyntaf gan Bwyllgor Enwi a Chymeradwyaethau Cymru, a bob dwy flynedd ar ôl hynny. Bydd y Cofrestrydd sydd â'r enw parth ar ei weinyddion enwau yn cael ei anfonebu ar yr adeg honno. Mae felly'n ofyniad bod y templed ar gyfer ceisiadau enwau

newydd yn dod o'r Cofrestrydd a Gymeradwywyd sydd newydd ei ddynodi, gan mai ef fydd y Cofrestrydd a fydd yn cael ei anfonebu am y tâl a godir am waith cynnal ar ôl dwy flynedd.

**Ffïoedd am Gynnal/Addasu**

Gweler addasu cofnodion System Enwi Parthau [1]

## Diffyg taliadau:

Os bydd Cofrestrydd yn methu â thalu anfoneb o fewn dau fis cadwa Jisc yr hawl i ddileu'r cofnodion System Enwi Parthau ar gyfer ei gwsmeriaid lle na chafwyd taliad. Yn sgil hyn, bydd cwsmeriaid y Cofrestrydd yn colli eu cofnod System Enwi Parthau ac felly byddant yn colli eu mynediad at eu e-bost a'u gwefan drwy'r cyfeiriad dan sylw.

---

**Source URL:** https://community.jisc.ac.uk/library/network-and-technology-service-documentation/taliadau-ffioedd

**Links**
[1] https://community.jisc.ac.uk/library/janet-services-documentation/modify-dns-entries